



SWYDD: GWEITHIWR/WRAIG CEFNOGOL IECHYD A LLESIANT (DYDD)
i weithio 140 awr y mis dydd Llun- Dydd Sul (yn unol â rota)

PRIF DDYLETSWYDDAU'R GWEITHIWR/WRAIG CEFNOGOL IECHYD A LLESIANT

I fod yn atebol i Reolwyr Antur Waunfawr i sicrhau gofal a gweithgaredd llesiant o safon uchel.

ATEBOLRWYDD A GOFYNION Y SWYDD

Yn y lle cyntaf i'r unigolion efo anableddau dysgu yn eu man gwaith dyddiol, ac yna i'r Rheolwraig/wŵr Prosiect perthnasol, ac yn y pen draw i'r Brif Weithredwraig a Bwrdd y Cwmni. Bydd yn ofynnol i deilydd y swydd gyflawni ystod o ddyletswyddau yn unol â chyfarwyddyd rheolwyr man gwaith yr unigolion efo anableddau dysgu sy'n derbyn y gefnogaeth.

Bydd gofyn i deilydd y swydd gymryd cyfrifoldeb llawn dros yr unigolion efo anableddau dysgu yn y man gwaith, gan gynnwys mynychu unrhyw apwyntiadau fydd gan yr unigolion.

SPEC. PERSON

SGILIAU ALLWEDDOL

- y gallu i wrando a chreu perthynas dda gyda'r unigolion sy'n derbyn cefnogaeth.
- y gallu i weithio ar ben ei hun ac fel rhan o dîm
- y gallu i annog unigolion efo anableddau dysgu i ehangu eu sgiliau
- y gallu i gofnodi manylion ariannol/personol yn fanwl a chywir
- sgiliau cyfathrebu da yn ysgrifenedig ac ar lafar yn y Gymraeg a'r Saesneg
- lefel da o ffitrwydd i gefnogi'r unigolion gyda anableddau dysgu ar weithgareddau llesiant a gofal
- gyrrwr/wraig a pherchennog car yn hanfodol
- y gallu i fod yn hyblyg o fewn y swydd gan gynnwys gweithio gydag unrhyw unigolyn a/neu safle yn ôl y gofyn

CYMWYSTERAU A GWYBODAETH

- NVQ Lefel 2 mewn Gofal (disgwylir y deilydd i gyflawni'r cymhwyster o fewn 12 mis o gychwyn y swydd)
- Dealltwriaeth drylwyr ac ymrwymiad i hawliau'r unigolyn
- Dealltwriaeth o rôl a diwylliant y sector wirfoddol
- Byddai ddiddordeb mawr mewn chwaraeon o fantais, ee, cerdded, beicio, chwaraeon dwr, cadw'n heini, nofio, merlota, ayb, a hefyd yr her ar awydd i drïo gweithgareddau eraill.
- Byddai diddordeb mewn bwyta'n iach, iechyd a lles a iechyd meddwl o fantais
- Dealltwriaeth o bolisiau a gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch o fantais

PROFIAD

- Byddai profiad o weithio yn y maes gofal dydd/preswyl o fantais
- Profiad o drafod o chydweithio gyda staff, asiantaethau eraill a'r gymuned

AGWEDD

- Agwedd bositif, hyblyg a dealltwriaeth o ddiwylliant Antur Waunfawr ac asiantaethau eraill sydd yn rhoi gwasanaeth dydd/preswyl.
- Sensitifrwydd a'r gallu i wrando ar ddyheadau'r unigolion efo anableddau dysgu a chreu awyrgylch braf yn y man gwaith.

HYBLYGRWYDD

Tynnir eich sylw at y ffaith bod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd ei dadansoddi yn fanwl a gallant newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb. Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan bo angen, cyfnewid o fewn y Cwmni er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r unigolion efo anableddau dysgu.

DISGRIFIAD SWYDD – GWEITHIWR/WRAIG CEFNOGOL (DYDD)

Cyflog - £17,004.00 y flwyddyn pro rata (£8.72 yr awr) i weithio 140 awr y mis dydd Llun – dydd Sul (yn unol â rota.)

Lleoliad: Yn ddibynnol ar safle gwaith yr unigolyn gyda anableddau dysgu sydd yn derbyn y gefnogaeth gwasanaeth dydd/preswyl. Gall fod yn ardal Waunfawr, Caernarfon neu Penygroes.

1. Cefnogi'r unigolyn gyda anableddau dysgu yn eu man gwaithac adref, i ddatblygu eu sgiliau. Bydd angen annog yr unigolion i fynychu gweithgareddau iechyd a llesiant i gyd fynd a'r cynlluniau gofal.
2. Sicrhau bod y rhaglen gweithgareddau iechyd a lles yn cael eu gweithredu yn gyson yn unol â gofynion yr unigolion gyda anableddau dysgu.
3. Sicrhau bod y Rheolwraig/Wŵr Prosiect yn cael gwybodaeth am unrhyw anhawsterau gall godi yn y cartref neu'r lleoliad/au gwaith.
4. Sicrhau gofal personol priodol i'r unigolyn
5. Meithrin perthynas dda gyda'r asiantaethau sy'n cynnig gwasanaeth ar gymuned yn ehangach.
6. Mynychu unrhyw apwyntiadau meddygol fydd gan yr unigolion gyda anableddau dysgu.
7. Mynychu unrhyw gyfarfodydd adolygu ar gyfer yr unigolion gyda anableddau dysgu.
8. Yn unol â'r angen sicrhau bod trefn cofnodi a dosbarthu meddyginiaeth i'r unigolion gyda anableddau dysgu yn cael ei gyflawni'n briodol.
9. bryd i'w gilydd mynd ar wyliau a mynychu digwyddiadau hamdden gyda'r unigolion gyda anableddau dysgu, boed hynny yn y wlad yma neu dramor.
10. Sicrhau bod unrhyw wybodaeth berthnasol yn cael ei drosglwyddo rhwng y lleoliad/au gwaith a'r cartref.
11. Unrhyw ddyletswyddau eraill yn unol â chais y Cwmni.

